




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y gofal iawn, yn y lle iawn, y tro cyntaf

Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng

**Blwyddyn yn ddiweddarach: cipolwg ar gynnydd
yn 2022/23 a blaenoriaethau ar gyfer 2023/24**



Rhagair y Gweinidog

Mae blwyddyn wedi mynd heibio ers lansio'r Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng ('y Chwe Nod'), rhaglen drawsnewid pum mlynedd. Mae'r adroddiad hwn yn ystyried y cynnydd a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf ac yn tynnu sylw at gynlluniau ar gyfer 2023/24.

Mae'r **chwe nod polisi** yn gweithredu fel fframwaith, gan nodi ein disgwyliadau ar gyfer partneriaid iechyd, gofal cymdeithasol a thrydydd sector o ran darparu'r gofal iawn, yn y lle cywir, y tro cyntaf i bobl sydd ag anghenion gofal brys neu ofal mewn argyfwng.

Er mwyn helpu i alluogi cyflawni'r chwe nod polisi, comisiynais y rhaglen a lanswyd ym mis Ebrill 2022 gyda'r ffocws ar gydweithio a thrawsnewid y system gyfan drwy ddysgu, rhannu a gwella parhaus.

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn hynod heriol i staff a gwasanaethau iechyd a gofal yng Nghymru, ac ar draws gorllewin Ewrop. Rydym wedi gweld galw heb ei debyg am ein gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng, gyda chynnydd o 93% yn y galw am alwadau ambiwlans coch (pan fo bywyd mewn perygl) o'i gymharu â 2019. Rydym hefyd wedi gweld, o bryd i'w gilydd, oedi hir i bobl sy'n ceisio cael gafael ar ofal neu ddychwelyd adref o'r ysbyty pan fyddant yn barod.

Hoffwn ddiolch yn bersonol i'r holl staff ar draws iechyd a gofal cymdeithasol am eu holl waith caled a'u hymroddiad; maent yn parhau i fynd ymhell tu hwnt i'w dyletswydd i ddiwallu anghenion pobl Cymru o dan amgylchiadau anodd.

Roeddem yn gwybod pan wnaethom greu'r chwe nod polisi ochr yn ochr ag arweinwyr clinigol a phroffesiynol y byddai llawer o flaenoriaethau i fynd i'r afael â nhw. Ac nid ydym yn gallu gwneud yr holl welliannau rydym eu heisiau neu eu hangen dros nos gyda'i gilydd. Mae gan rai o'n blaenoriaethau amserlenni tymor canolig neu dymor hwy ar gyfer eu gweithredu gan fod cyflawni newid trawsnewidiol yn cymryd amser. Yn enwedig pan mae'n golygu llunio a chyflwyno llwybrau ar draws ffiniau sefydliadol.

Yn 2022/23, mae'r rhaglen Chwe Nod wedi sefydlu sylfeini allweddol sy'n angenrheidiol ar gyfer newid diwylliannol, system gyfan. Mae wedi galluogi cynnydd cynnar hefyd drwy gyflwyno llwybrau clinigol gwell a symlach ar gyfer pobl sydd angen cael gafael ar ofal brys a gofal mewn argyfwng. Mae enghreifftiau o gynnydd yn cynnwys:

- darparu 76 o wirwyr symptomau fel rhan o welliannau i blatfform ar-lein GIG 111 Cymru sy'n galluogi cynnydd yn y defnydd o'r gwasanaeth;
- cyflwyno 'dewis 2' ar gyfer llwybr argyfwng iechyd meddwl newydd GIG 111 Cymru i gynorthwyo pobl i gael y cyngor iawn, a hynny'n gyflym;
- gweithredu technoleg ymgynghori fideo gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru i helpu parafeddygon i wneud penderfyniadau hyderus am ofal unigolyn yn y fan a'r lle;
- sefydlu canolfannau gofal sylfaenol brys newydd a gwasanaethau gofal argyfwng yr un diwrnod i helpu mwy o bobl i gael gofal yn agosach at eu cartref, a dychwelyd adref i gysgu yn eu gwely eu hunain yn dilyn asesiad a thriniaeth; a
- datblygu a gweithredu fframwaith llif cleifion ysbyty i helpu timau lleol i ryddhau cleifion mewn modd amserol a phriodol.

Mae'r prosiectau hyn wedi helpu i reoli llawer mwy o bobl sydd ag anghenion gofal brys neu ofal mewn argyfwng yn eu cartrefi eu hunain neu mewn lleoliadau cymunedol. Maent wedi helpu i atal, yn ddiogel, yr angen i gleifion fynd i'r ysbyty. A phan fydd angen mynd i'r ysbyty, mae mwy o bwyslais bellach ar ryddhau i wella ac asesu llwybrau i helpu pobl i ddychwelyd adref pan fyddant yn barod.

Mae gwaith i'w wneud yn 2023/24 i ymwreiddio'r gwelliant hyd yma a symud ymlaen. Rydw i am weld cydweithio agosach a mwy effeithiol rhwng y GIG ac arweinwyr gofal cymdeithasol drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn galluogi cyflawni'r chwe nod polisi. Rydw i hefyd am weld aliniad pellach o'r rhaglen Chwe Nod gyda chynlluniau rhaglenni cenedlaethol allweddol eraill a Byrddau dan arweiniad clinigol.

Ym mlwyddyn dau, rwy'n disgwyl i'r rhaglen adeiladu ar ei chynnydd cynnar a chynorthwyo Byrddau lechyd a phartneriaid i gyflawni nifer o gynlluniau allweddol, fel a ganlyn:

- ffocws clir ar reoli pobl ag anghenion gofal brys yn effeithiol yn y gymuned, 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos;
- helpu mwy o bobl i gael mynediad diogel i ddewisiadau amgen yn lle mynd i'r ysbyty, er enghraifft, drwy wasanaethau gofal argyfwng cadarn yr un diwrnod, saith diwrnod yr wythnos, a llwybrau clinigol effeithiol a chysylltiedig;
- lleihau'n sylweddol yr amser mae cleifion yn ei dreulio yn disgwyl mewn ambiwlansys i'w gofal gael ei drosglwyddo i staff Adran Achosion Brys; a
- ffocws clir a di-baid ar ryddhau cleifion yn ddiogel ac yn amserol o ysbytai aciwt a chymunedol, gan gefnogi darparu gofal yn agosach at eu cartrefi.

Dylai Byrddau lechyd a'u partneriaid gydweithio i ystyried sut y byddant yn cyflawni'r blaenoriaethau hyn drwy eu Byrddau Rhaglen Chwe Nod lleol, gan adeiladu ar gynlluniau tymor canolig integredig sy'n nodi eu cerrig milltir a'u camau gweithredu allweddol am y tair blynedd nesaf. Rwy'n disgwyl i Fyrddau lechyd ddefnyddio'r cyllid a ddyrannwyd iddynt yn effeithiol er mwyn galluogi gwerth am arian a'r effaith fwyaf posibl i'w poblogaethau preswyl.

Byddwn yn parhau i ddwyn Byrddau lechyd i gyfrif am gyflawni cynlluniau rhaglen Chwe Nod lleol, gan sicrhau bod eglurder ar sut y maent yn gwella canlyniadau clinigol, profiad a gwerth defnyddwyr gwasanaethau a staff.

Edrychaf ymlaen at wneud cynnydd pellach ym mlwyddyn dau wrth i ni weithio gyda'n gilydd i wella'r cynnig gofal brys a gofal mewn argyfwng i bobl Cymru.



Eluned Morgan AS
Y Gweinidog lechyd
a Gwasanaeth Cymdeithasol

'Blwyddyn yn ddiweddarach'

Mae gwefan GIG 111 Cymru yn cynnwys **76** o wirwyr symptomau ar-lein a hyd at **388,000** o ymweliadau gwe misol



Mwy o fynediad i ofal argyfwng yr un diwrnod – mae tua **75%** ↑ o bobl yn cael eu rhyddhau adref i gysgu yn eu gwely eu hunain ar yr un diwrnod




Lansio technoleg 'ymgyngori fideo' parafeddygon – mae tua **14%** o gleifion ambiwlans 999 yn cael eu hasesu a'u rheoli drwy asesiad ffôn a/neu fideo heb fod angen eu cludo i'r Adran Achosion Brys



Mae llai o bobl yn treulio mwy o amser yn yr ysbyty, gan leihau'r risg o golli annibyniaeth a dirywio – gostyngiad o tua **5%** ↓ mewn diwrnodau gwely brys a ddefnyddir gan bobl sy'n aros yn yr ysbyty am dros 21 diwrnod



Agor Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys newydd – ehangu i gyrraedd cyfanswm o **2.2m** ↑ (294 o feddygfeydd mewn 44 o glystyrau)



Cyflwyno '111 Dewis 2' ar gyfer argyfwng iechyd meddwl ledled Cymru – mae tua **8** o bob **10** o bobl sy'n ffonio yn cael eu rheoli heb orfod cael mynediad at wasanaethau gofal brys neu argyfwng



Data gan y GIG i roi arweiniad procsi ar y cynnydd.


Cynnwys

Cerrig milltir ar gyfer blwyddyn un	6
Nod un: cynnydd blwyddyn un	8
Nod dau: cynnydd blwyddyn un	9
Nod tri: cynnydd blwyddyn un	10
Nod pedwar: cynnydd blwyddyn un	11
Nodau pump a chwech: cynnydd blwyddyn un	12
Taith drwy'r system gofal brys a gofal mewn argyfwng	13
Profiad o ofal argyfwng yr un diwrnod	13
Profiad o wasanaethau ambiwlans brys a gwasanaethau ysbyty aciwt	14
Profiad o GIG 111 Cymru	15
Edrych ymlaen at y flwyddyn nesaf	16
Egwyddorion y rhaglen ar gyfer cyflawni cyson yn 2023/24	16
Cynlluniau'r rhaglen ar gyfer 2023/24	16

Cerrig milltir allweddol ar gyfer blwyddyn un

Mae'r chwe nod polisi, a ddangosir yn niagram un, yn pennu fframwaith polisi ar gyfer Byrddau Iechyd a'u partneriaid i gynorthwyo datblygu cynlluniau gwella gofal brys a gofal mewn argyfwng cadarn ac integredig.

Diagram un: y chwe nod polisi ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng



Mae'r adran hon yn crynhoi'r cynnydd a wnaed yn ystod blwyddyn gyntaf y rhaglen. Mae'r cyd-destun strategol a'r sbardunau ar gyfer y rhaglen genedlaethol hon i'w gweld yn y **llawlyfr polisi Chwe Nod** a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2022.

Mae buddsoddiad o £25 miliwn yn sail i'r Chwe Nod, a wneir bob blwyddyn drwy gydol y rhaglen. Cafodd y cyllid ar gyfer blwyddyn un ei neilltuo ar gyfer tri maes buddsoddi:

1. Sefydlu seilwaith y rhaglen;
2. £20 miliwn o gyllid uniongyrchol i Fyrddau Iechyd i gefnogi cyflawni blaenoriaethau y cytunwyd arnynt a amlinellwyd gan eu bwrdd rhaglen lleol a arweinir gan y llawlyfr polisi a chanllawiau cynllunio rhaglenni ychwanegol;
3. Cronfa arloesi a chyflawni i gefnogi prosiectau a dargedir sy'n dangos newid trawsnewidiol posibl a fydd yn gallu cael ei gyflwyno'n genedlaethol yn y pen draw.

Mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith y bydd prosiectau allweddol bob blwyddyn a fydd yn gallu aeddfedu i fod yn gynlluniau cyflawni manwl a derbyn buddsoddiad cysylltiedig, yn ogystal â'r prosiectau hynny y bydd angen iddynt ddod yn 'fusnes fel arfer' i Fyrddau Iechyd a'u partneriaid.

Gair gan Gadeirydd Bwrdd y Rhaglen

“Cafodd y rhaglen Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng ei sefydlu i gynorthwyo Byrddau Iechyd a'u partneriaid i drawsnewid a gwella'r gwaith o ddarparu gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng i bobl Cymru.

Yr uchelgais yw galluogi pobl sydd ag anghenion gofal brys neu ofal mewn argyfwng i gael gofal diogel o safon uchel ar yr adeg iawn, yn y lle iawn, gan y tîm iawn. Mae hyn yn golygu helpu mwy o bobl i osgoi teithiau diangen i'r ysbyty – ac arosiadau hir – a ddylai helpu i wella canlyniadau pobl, yn ogystal â phrofiad staff a chleifion.

Ym mlwyddyn un y rhaglen, mae'r Bwrdd wedi goruchwyllo sefydlu strwythurau newydd pwysig i gefnogi cyflawni'r uchelgais hon; a chynnydd go iawn ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol o ran datblygu a gweithredu llwybrau clinigol allweddol, gwasanaethau cymunedol newydd ac offer sy'n helpu i gyflawni nodau'r rhaglen.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweld cynnydd yn nifer y bobl sy'n defnyddio gwasanaeth teleffoni ac ar-lein GIG 111 Cymru; cynnydd yng nghyfran y cleifion 999 sy'n cael eu rhyddhau dros y ffôn heb fod angen ambiwlans i Adran Achosion Brys; a chynnydd sylweddol yng nghyrhaeddiad canolfannau gofal sylfaenol brys. Mae hyn yn golygu bod mwy o bobl yn cael y cyngor neu'r gofal iawn ar gyfer eu hanghenion yn eu cymunedau lleol heb fod angen gofal ysbyty.

Bu cynnydd hefyd o ran darparu gofal argyfwng yr un diwrnod i fwy o bobl, gan helpu tua 75% o bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn i ddychwelyd i gysgu yn eu gwely eu hunain ac osgoi gorfod mynd i'r ysbyty. Peth calonogol arall yw'r canllawiau newydd sydd wedi'u cyd-ddylunio i helpu staff ward ysbytai a staff gofal cymdeithasol i drosglwyddo pobl o'r ysbyty i'w cartrefi pan fyddant yn barod.

Er nad oes atebion rhwydd ar gyfer y system gofal brys a gofal mewn argyfwng, rwy'n disgwyl gwelliant cyflym ym mlwyddyn dau sy'n adeiladu ar y cynnydd cynnar hwn wrth i ni fynd ati gyda'n gilydd i gyflawni uchelgeisiau'r rhaglen Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng er lles pobl Cymru.”

Nick Wood

Dirprwy Brif Weithredwr – GIG Cymru

Nodir cyflawniadau allweddol y rhaglen hyd yma yn fanylach ar y tudalennau dilynol.

Wrth i ni symud i flwyddyn dau, mae mwy o ffocws ar wella ansawdd data, a'r wybodaeth weithredol sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad o flwyddyn un yw data'r GIG. Ei fwriad yw darparu arweiniad ar gynnydd, felly dim ond fel procsi y dylid ei ystyried.



Nod un: cynnydd blwyddyn un



Nod 1:

Cydgysylltu, cynllunio a chymorth ar gyfer poblogaethau sydd â risg uwch o fod angen gofal brys neu ofal mewn argyfwng

Dylai sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol weithio ar y cyd â phartneriaid gwasanaethau cyhoeddus a phartneriaid trydydd sector i ddarparu gwasanaeth iechyd a gofal ymatebol, cydgysylltiedig ac integredig, gan helpu pobl i aros yn iach yn hirach a chael cymorth rhagweithiol, ymyriadau ataliol neu driniaeth sylfaenol cyn i'r sefyllfa droi'n un frys neu'n un argyfwngus.

Er mwyn galluogi hyn yn 2022/23, mae'r rhaglen Chwe Nod wedi:

- **Profi dull newydd** i helpu i nodi pobl sy'n byw o fewn ardaloedd 20% mwyaf difreintiedig cymuned ac sy'n wynebu'r risg fwyaf o broblemau anadlu neu gardiofasgwlaidd hirdymor; a materion iechyd meddwl. Y nod yw helpu pobl i reoli eu cyflyrau er mwyn lleihau'r risg o fod angen gofal mewn argyfwng.
- **Lansio "Fi a Fy Iechyd"**, cynllun iechyd personol, a'i ddosbarthu drwy wasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a thrydydd sector. Nod y cynllun yw helpu gweithwyr gofal iechyd cymunedol proffesiynol fel parafeddygon i wneud penderfyniadau mwy gwybodus am gam gofal nesaf unigolyn wrth ei asesu yn ei gartref.
- **Gwella dealltwriaeth** o sut i helpu pobl sy'n cysylltu â gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng amlaf. Cynhaliwyd ymchwil academaidd i ehangu gwybodaeth a dealltwriaeth yn y maes gwaith hwn.

Mae hyn yn golygu...

Mae pobl yn cymryd rhan mewn sgysiaau rhagweithiol drwy eu meddyg teulu i drafod pa gymorth y gellir ei dargedu i ddiwallu eu hanghenion.

*Mae miloedd o gopiâu caled o **Fi a Fy Iechyd** wedi'u rhannu drwy sefydliadau trydydd sector – gan roi mwy o adnoddau i bobl ofalu eu hiechyd.*

Mae'r ymchwil yn dangos ymyriadau a dulliau gweithredu seiliedig ar dystiolaeth cadarnhaol sy'n gallu cynorthwyo pobl sy'n defnyddio gwasanaethau o'r fath yn rheolaidd.



Nod dau: cynnydd blwyddyn un



Nod 2:

Cyfeirio pobl ag anghenion gofal brys i'r lle iawn y tro cyntaf


Pan fydd pobl angen neu eisiau gofal brys, gallant ddefnyddio gwasanaeth gofal brys 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos drwy wasanaeth ar-lein neu ffôn GIG 111 Cymru lle byddant yn cael cyngor a, phan fo angen, yn cael eu cyfeirio neu eu hatgyfeirio i'r gwasanaeth iawn, naill ai yn y gymuned neu mewn ysbyty, a hynny y tro cyntaf.

Er mwyn galluogi hyn yn 2022/23, mae'r rhaglen Chwe Nod wedi:

- **Cyflwyno GIG 111 Cymru yn genedlaethol a chryfhau'r gwasanaeth** yn dilyn ymosodiad seiber ym mis Awst 2022. Mae hyn wedi cynnwys gwaith wedi'i dargedu sy'n canolbwyntio ar gysondeb mynediad at wasanaethau ac argaeledd gwasanaethau, saith diwrnod yr wythnos.
- **Gwella ansawdd a hygyrchedd gwefan GIG 111 Cymru** i gynnwys cyflwyno **76 o wirwyr symptomau ar-lein**.
- **Gwella'r ymateb i argyfwng iechyd meddwl** drwy gyflwyno gwasanaeth 'dewis 2' 111 er mwyn galluogi ymateb cyflym i bobl sydd mewn argyfwng.
- **Gwella mynediad brys at feddyginiaethau rheolaidd** drwy gyfnodau o alw uchel, gyda chymorth gwasanaethau presgripsiynu annibynnol a chynnydd yn nifer yr atebwyr galwadau newydd.
- **Canolbwyntio ar ofal lliniarol**, gan aildodbarthu canllawiau arfer gorau a phrofi llinell gyngor broffesiynol benodedig.
- **Hyrwyddo GIG 111 Cymru** drwy ymgyrch gyfathrebu teledu a chyfryngau cymdeithasol wedi'i hategu gan fuddsoddiad parhaus mewn technolegau digidol a gwefan.

Mae hyn yn golygu...

Mae mwy o bobl yn defnyddio gwefan GIG 111 Cymru, gyda thros 388,000 o ymweliadau misol â'r wefan.



Mae data'r GIG yn awgrymu bod cyn lleied â 9–12% o'r holl alwyr yn cael eu cynghori i fynychu'r Adran Achosion Brys gan GIG 111 Cymru.

Mae mynediad uniongyrchol at gyngor arbenigol ar gyfer iechyd meddwl – mae tua 8 o bob 10 o bobl sy'n ffonio'n cael eu rheoli heb fod angen cael mynediad at wasanaethau gofal brys neu ofal mewn argyfwng.



Nod tri: cynnydd blwyddyn un



Nod 3: Dewisiadau eraill sy'n ddiogel yn glinigol yn lle mynd i'r ysbyty

Pobl yn gallu cael mynediad at ofal priodol a diogel yn agos at eu cartref, gyda chymaint o barhad gofal â phosibl. Dim ond pan fo hynny'n angenrheidiol yn glinigol y dylid rhoi gwely aciwt i bobl sydd angen gofal parhaus.

Er mwyn galluogi hyn yn 2022/23, mae'r rhaglen Chwe Nod wedi:

- Lansio'r **Ganolfan Gofal Sylfaenol Brys** a'r **Pecynnau cymorth Seilwaith Cymunedol** i ddarparu gwybodaeth ac adnoddau i gefnogi ehangu a gwelliannau i ofal sy'n seiliedig ar leoedd.
- **Cynyddu nifer yr UPCCs o 9 i 13**, gan gynnwys canolfannau newydd ym Myrddau Iechyd Betsi Cadwaladr a Chaerdydd a'r Fro, a chreu Fframwaith Adrodd Perfformiad cenedlaethol i alluogi datblygu safonau data ar gyfer monitro yn y dyfodol.
- Lansio'r **Fanyleb Nyrso Cymunedol** gyda cherrig milltir Llywodraeth Cymru.
- Cyhoeddi **canllawiau cenedlaethol i alluogi parafeddygon i wneud atgyfeiriadau uniongyrchol i Ofal Argyfwng yr Un Diwrnod (SDEC)**, gwella'r profiad ambiwlans ac ysbyty aciwt i bobl – gan sicrhau eu bod yn cyrraedd y gyrchfan glinigol fwyaf priodol yn gynharach yn eu taith drwy'r system.
- **Penodi arweinydd cenedlaethol ac agor unedau SDEC pwrpasol** ym Myrddau Iechyd Caerdydd a'r Fro a Phrifysgol Aneurin Bevan drwy gyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru.
- Parhau i ymwreiddio **cyngor ac arweiniad arbenigol** i gefnogi ymarferwyr cymunedol i wneud penderfyniadau hyderus am gam gofal nesaf person.

Mae hyn yn golygu...

Mae data'r GIG yn awgrymu bod tua 9,000 o gysylltiadau, gyda thros 7,500 o bobl yn cael eu gweld bob mis drwy UPCCs ar draws Cymru.


Erbyn hyn, mae UPCCs yn cyrraedd 2.2 miliwn o bobl (294 o feddygfeydd mewn 44 o glystyrau).

Cynydd yng nghwmpas y gwasanaeth erbyn 21 Hydref 2023.



Mae data'r GIG yn awgrymu bod tua 75% o bobl yn cael eu rhyddhau i'w cartref o wasanaethau SDEC i gysgu yn eu gwely eu hunain yr un diwrnod.

Mae mwy o bobl yn osgoi'n ddiogel cael eu trosglwyddo i'r ysbyty mewn ambiwlans.



Nod pedwar: cynnydd blwyddyn un



Nod 4:

Ymateb cyflym os oes argyfwng corfforol neu argyfwng iechyd meddwl

Dylai unigolion sy'n ddifrifol wael neu wedi'u hanafu'n wael, neu mewn argyfwng iechyd meddwl, gael yr ymateb cyflymaf a gorau sy'n gymesur â'u hangen clinigol – ac, os oes angen, dylent gael eu cludo i'r lle iawn ar gyfer gofal diffiniol er mwyn sicrhau'r profiad a'r canlyniad gorau.

Er mwyn galluogi hyn yn 2022/23, mae'r rhaglen Chwe Nod wedi:


- Gweithio gyda'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwllans Brys i **ddatblygu cynlluniau gwella ambiwlans** gyda ffocws ar:
 - sicrhau bod yr ymateb ambiwlans mwyaf priodol yn cael ei anfon;
 - lleihau'n ddiogel nifer y bobl sy'n cael eu trosglwyddo mewn ambiwlans – trin pobl yn agosach at eu cartref pan fo hynny'n glinigol briodol; a
 - lleihau'r amser mae pobl yn ei dreulio mewn ambiwlansys y tu allan i'r ysbyty drwy wella trosglwyddiadau ambiwlans.
- **Parhau i gefnogi datblygiad technoleg cymorth clinigol o bell, gan alluogi WAST i lansio 'ymgyngoriadau fideo'** i gefnogi parafeddygon i wneud penderfyniadau yn y fan a'r lle drwy gyswllt fideo uniongyrchol i glinigwr mewn canolfan gyswllt glinigol 999.
- **Buddsoddi mewn gwasanaethau fferylliaeth** mewn Adrannau Achosion Brys i gefnogi gwell diogelwch cleifion a lleihau oedi drwy fynediad uniongyrchol at gyngor arbenigol ar feddyginiaethau.
- **Sefydlu cynllun peilot Gwasanaeth Ymateb Lles 999 newydd** i ddarparu adolygiadau wyneb yn wyneb i bobl sydd wedi ffonio 999 ac sy'n disgwyl yn y gymuned am ymateb ambiwlans.

Mae hyn yn golygu...

Mae tua 14% o gleifion ambiwlans 999 yn cael eu hasesu a'u rheoli drwy asesiad ffôn a/neu fideo heb fod angen ambiwlans.

Mae risg gymunedol (sy'n ymwneud â'r rhai sy'n aros am ymateb WAST) yn cael ei rheoli'n well, gyda ffocws ar wella profiad.

Arwydd cynnar o brofiad gwell ar gyfer y rhai sy'n mynychu Adrannau Achosion Brys sydd angen mewnbwn neu reolaeth fferylliaeth.





Nodau pump a chwech: cynnydd blwyddyn un



Nod 5:

Darparu'r gofal a'r ymarfer rhyddhau gorau posibl i'r claf ar ôl iddo gael ei dderbyn i'r ysbyty

Rhoi'r gofal ysbyty gorau posibl i bobl sydd angen asesiad neu driniaeth tymor byr neu barhaus, cyhyd ag y bo'n ychwanegu budd at y canlyniad, gyda ffocws cryf ar ymarfer rhyddhau da.



Nod 6:

Dull 'gartref yn gyntaf' a lleihau'r risg o orfod mynd yn ôl i'r ysbyty

Ar ôl arhosiad yn yr ysbyty, bydd pobl yn dychwelyd adref – neu i'w cymuned leol gyda chymorth ychwanegol os bydd angen – cyn gynted ag y bydd hynny'n bosibl ac yn ddiogel, a hynny er mwyn gwella'u canlyniad a'u profiad ac osgoi datgylfyr.

Er mwyn galluogi hyn yn 2022/23, mae'r rhaglen Chwe Nod wedi:

- **Lansio canllawiau gweithredol Optimeiddio Llif Cleifion mewn Ysbytai** gyda chanllawiau ategol cysylltiedig ar gyfer prosesau rhyddhau (a elwir yn SAFER, Red2Green a D2RA).
- **Cyflwyno mesur newydd o nifer y bobl sy'n treulio mwy na 21 diwrnod yn yr ysbyty**, gyda chefnogaeth grŵp arbenigol sy'n canolbwyntio ar leihau nifer y bobl sy'n profi gofal ysbyty hirdymor a galluogi rheoli gweithredol deallus.
- **Cwblhau cynllun peilot ar gyfer Oedi gyda Llwybrau Gofal**, gan gipio'r holl ddata wedi'i ddalysu yng Nghymru am resymau sy'n gysylltiedig ag oedi cyn rhyddhau cleifion o'r ysbyty gyda chynlluniau gweithredu'n cael eu hadrodd i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol i dargedu oedi a nodwyd.
- Penodi **Arweinydd Clinigol Gartref yn Gyntaf a diweddar Llwybrau D2RA**.
- **Cyhoeddi canllawiau Asesydd Dibynadwy a sefydlu** gweithgor i ddatblygu Pecyn Cymorth Asesydd Dibynadwy Ar-lein o wybodaeth i gefnogi datblygu a gweithredu rôl a swyddogaeth Asesydd Dibynadwy ymhellach ledled Cymru.

Mae hyn yn golygu...

Bu gostyngiad o tua 5% yn nifer y diwrnodau gwely brys sy'n cael eu defnyddio gan bobl sy'n aros yn yr ysbyty am dros 21 diwrnod.

D	2	R	A
DISCHARGE	TO	RECOVER	ASSESS
Pathway 0	Pathway 1	Pathway 2	Pathway 3
<p>NO ADDITIONAL SUPPORT REQUIRED FOR DISCHARGE</p> <ul style="list-style-type: none"> Fully independent – no further support required Multidisciplinary team assessment within hospital most often leads to avoid full admission. Patient returns to usual place of residence (including Care Home) Rest of Package of Care (POC) with no changes Has pre-existing community services in place 	<p>SUPPORTED HOME HOST</p> <ul style="list-style-type: none"> Patient returns to usual place of residency with short term support Preventative services delivered in collaboration with third and voluntary sector organisations (e.g. Meal provision, shopping, housing) New POC or increase of existing package Short term readmission to maximise independence Assessment and some additional care and support (including therapy, nursing, Pharmacy, domiciliary care & new equipment, e.g. Community Resource Team) Safe between calls/ overnight 	<p>SHORT TERM SUPPORTED FACILITY</p> <ul style="list-style-type: none"> Patient is transferred to a non-acute bed and receives rehabilitation and assessment until able to return safely home Unsafe to be at home overnight/between care calls Currently needing some care top ADU support intervention 24/7 Includes specialist rehab (e.g. Stroke, Neuro, I&D) 	<p>COMPLEX SUPPORT</p> <ul style="list-style-type: none"> Patient is transferred to a new long term bed, assessment bed or usual residence and receives the complex support and/or assessment for their needs Complex/significant health and/or social needs in usual residency Significant change requiring new placement Longer term placement Life changing health care needs Complex end of life or mental health needs


Mae rhyddhau cleifion yn cael ei ystyried ar y pwynt derbyn ac mae'r rhesymau pam nad yw pobl yn cael eu rhyddhau mewn modd amserol yn cael eu deall yn well ac mae atebion yn cael eu targedu.

Bydd hyn yn galluogi mwy o bobl i gyflawni rôl/swyddogaeth Asesydd Dibynadwy ledled Cymru.

Taith drwy'r system gofal brys a gofal mewn argyfwng

Enghreifftiau o sut y gallai rhywun gael mynediad at wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng a derbyn y gofal iawn, yn y lle iawn, y tro cyntaf.

Profiad o ofal argyfwng yr un diwrnod



Mae Natalia'n cael ei rhyddhau adref, ar yr un diwrnod, gyda gwybodaeth am yr hyn y dylai hi gadw llygad amdano os bydd hi'n teimlo'n fwy sâl ac i ble y dylai mynd
Mae apwyntiad dilynol yn cael ei drefnu gyda'r meddyg ymgynghorol mewn clinig mynediad sydyn.

Profiad o wasanaethau ambiwlans brys a gwasanaethau ysbyty aciwt




Mae Susan, menyw 78 oed, yn cwmpo gartref; mae hi'n gwisgo larwm personol sy'n ei chysylltu â thriniwr galwadau sy'n cysylltu â'r gwasanaethau brys ar ei rhan.




Mae Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlan Cymru'n derbyn yr alwad ac, yn dilyn brysennu clinigol, yn trefnu bod ambiwlans brys yn mynd ati.



Mae Susan yn cael ei hasesu gan barafeddygon sy'n rhoi cyffuriau lleddfu poen iddi drwy ddrip yn ei braich.



Mae Susan yn cael ei chludo mewn ambiwlans brys i'r adran achosion brys leol, ac mae ei gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo i'r nyrsys a fydd yn gofalu amdani.



Mae'r parafeddygon yn defnyddio dyfais codi i osod Susan ar droli ac asesu ei hanafiadau – mae'r parafeddygon yn amau ei bod wedi torri ei chlun.



Cynhelir ymchwiliadau, gan gynnwys profion gwaed a phelydr-x o glun Susan. O ystyried ei hoedran, mae Susan yn cael asesiad eiddilwch clinigol hefyd i ddeall ei hanghenion llinell sylfaen.



Mae uwch-ymarferydd nyrsio'n cwblhau asesiad clinigol llawn ac yn adolygu canlyniadau ei hymchwiliad – maen nhw'n cadarnhau bod Susan wedi torri ei chlun.

Mae'r uwch-ymarferydd nyrsio'n cychwyn y llwybr priodol, gan gynnwys atgyfeirio Susan i'r tîm trawma ac orthopedig a fydd yn gofalu amdani ac yn trefnu unrhyw lawdriniaeth angenrheidiol.




O fewn 24 awr i gael ei derbyn, rhoddir Susan ar lwybr rhyddhau (D2RA) a fydd yn llywio pa wasanaethau parhaus sydd eu hangen ac yn sicrhau bod yr holl weithwyr proffesiynol perthnasol yn gallu dechrau cynllunio i Susan ddychwelyd adref.

Profiad o GIG Cymru 111





Mae'n fore Sadwrn, ac mae Omar yn poeni am glwyf ar fraich ei fab, Rayan – mae'n credu bod ei fab wedi cael ei frathu gan bryfyn ac mae'n defnyddio gwefan GIG 111 i wirio ei symptomau.



Mae Omar yn credu bod y brathiad wedi'i heintio felly, ar ôl defnyddio'r gwiriwr symptomau ar-lein, mae'n penderfynu ffonio '111'.

Mae'r triniwr galwadau 111 yn casglu gwybodaeth gan Omar am ei fab ac, ar ôl gofyn sawl cwestiwn, mae'n penderfynu atgyfeirio Rayan i gael ei asesu gan glinigwr yn y gwasanaeth y tu allan i oriau arferol.



Mae'r triniwr galwadau 111 yn trosglwyddo'r wybodaeth yn electronig i'r gwasanaeth y tu allan i oriau arferol ac yn cymryd manylion cyswllt.

Mae clinigwr yn ffonio Omar yn ôl ac yn gofyn mwy o gwestiynau iddo am frathiad ei fab ac yn gofyn iddo anfon lluniau i'w harchwilio ymhellach.



Mae'r clinigwr yn adolygu'r lluniau ac yn trefnu bod presgripsiwn o wrthfotigau yn cael ei anfon i fferyllfa leol i'w casglu, ac mae'n rhoi gwybodaeth am beth i'w wneud os bydd unrhyw beth yn newid.



Cynghorir Omar i wneud apwyntiad gyda nyrs practis meddygfa deulu ei fab ymhen tridiau i adolygu'r clwyf. Mae'r holl wybodaeth a gofnodwyd yn ystod yr ymgynghoriadau gydag Omar yn cael eu hanfon yn awtomatig at feddyg teulu ei fab ac yn cael ei harbed ar y system 111 hefyd rhag ofn i Omar ffonio eto am gyngor pellach.



Edrych ymlaen at y flwyddyn nesaf

Mae blaenoriaethau'r rhaglen Chwe Nod ar gyfer 2023/24 yn adeiladu ar y cynnydd a wnaed yn erbyn yr amcanion polisi hyd yma.

Mae cynllun y rhaglen yn cynnwys parhau â blaenoriaethau a mentrau allweddol sy'n pontio'r 12 i 18 mis nesaf ac sy'n cyd-fynd â'r canllawiau cynllunio a pherfformiad cenedlaethol.

Rhoddodd blwyddyn gyntaf y rhaglen Chwe Nod flaenoriaeth i gyfran sylweddol o'r gyllideb sydd ar gael ar gyfer parhau ac ehangu Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys (UPCC) a gwasanaethau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod (SDEC). Mae'r meysydd hyn yn parhau o fewn blaenoriaethau'r Gweinidogion ar gyfer 2023/24 a byddant yn parhau i fod yn feysydd ffocws allweddol ar gyfer y rhaglen, ond gyda mwy o ffocws ar integreiddio'r gwasanaethau allweddol hyn fel rhan o fodel gofal brys 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos cadarn.

Egwyddorion y rhaglen ar gyfer cyflawni cyson yn 2023/24

Mae'n hanfodol bod y blaenoriaethau Chwe Nod yn cael eu deall yng nghyd-destun rhaglenni a mentrau cenedlaethol eraill.

Gyda hyn mewn golwg, mae'r Chwe Nod wedi cytuno ar nifer o egwyddorion cyffredinol a fydd yn sail i'w dull o gyflawni. Mae'r rhain yn cynnwys:

1. Gwell mynediad a **chysondeb o ran cyflwyno 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos**, beth bynnag fo'r ffiniau sefydliadol – dylai gwasanaethau penwythnos gyd-fynd â'r rhai a ddarperir yn ystod yr wythnos waith.
2. Mwy o ffocws ar **oedolion agored i niwed**, gan gadw pobl mor agos at eu cartref â phosib drwy ragweld a chynllunio cadarn a chydgyssylltu anghenion lle mae hyn yn bosibl.
3. Ehangu **cynllunio digidol a chynllunio'r gweithlu** i gefnogi'r seilwaith sy'n sail i'r system gofal brys a gofal mewn argyfwng a sicrhau ei fod yn parhau'n addas i'r diben yn y dyfodol.
4. Meithrin **cysylltiadau partneriaeth** cryfach gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn sicrhau bod cydgysylltu ehangach ar flaenoriaethau ar draws lechyd a Gofal Cymdeithasol.

Cynlluniau'r rhaglen ar gyfer 2023/24

Mae Bwrdd y rhaglen Chwe Nod wedi cymeradwyo nifer o brosiectau allweddol ar gyfer 2023/24, gan adeiladu ar lwyddiannau cynnar 2022/23. Mae'r rhan fwyaf o'r prosiectau'n pontio'r portffolio Chwe Nod cyfan ac yn ceisio sicrhau gwelliant system gyfan ar gyfer pobl Cymru.

Bydd cynlluniau'r rhaglen yn cael eu diffinio ymhellach wrth i'r rhaglen symud drwy chwarter un. Yn sail i bob prosiect bydd y trywydd cyflenwi, mesuriadau a gofynion buddsoddi sy'n canolbwyntio ar wella canlyniadau a phrofiadau'n barhaus i bobl ag anghenion gofal brys a gofal mewn argyfwng.

Bydd cynllun terfynol y rhaglen ar gael ar wefan y rhaglen Chwe Nod yma. Bydd yn adeiladu ar y meysydd blaenoriaethau allweddol a restrir isod:

- 1. Datblygu a gweithredu llwybrau clinigol allweddol** er mwyn galluogi pobl i gael mynediad at ofal yn y lle iawn, y tro cyntaf.
 - Cyflwyno neu ehangu llwybrau GIG 111 Cymru ar gyfer gofal deintyddol, iechyd meddwl a lliniarol brys.
 - Profi ymhellach lwybrau cymunedol amgen ar gyfer poen yn y frest.
- 2. Datblygu a chyflwyno model gofal brys integredig 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos,** gan ymgorffori GIG 111 Cymru, Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys, llinellau cyngor ac arweiniad arbenigol, gofal sylfaenol y tu allan i oriau arferol ac Unedau Mân Anafiadau – er mwyn cynyddu nifer y bobl y gellir eu rheoli'n ddiogel yn y gymuned.
- 3. Lleihau'n ddiogel nifer y bobl sy'n cael eu trosglwyddo mewn ambiwlans i Adrannau Achosion Brys:**
 - Cynyddu ymhellach gyfraddau 'clywed a thrin' 999 – gan alluogi pobl i gael y gofal a'r cyngor angenrheidiol dros y ffôn neu drwy'r dechnoleg ymgynghori fideo ddiweddaraf.
 - Cynyddu ymhellach gyfraddau 'gweld a thrin' 999 – gan alluogi pobl i gael y gofal a'r cyngor angenrheidiol drwy asesiad clinigol wyneb yn wyneb gan y gwasanaeth ambiwlans.
 - Cymorth wedi'i dargedu i gartrefi gofal er mwyn galluogi preswylwyr i aros yn eu cartref ac osgoi mynd i'r ysbyty, a hynny mewn ffordd ddiogel.
- 4. Cynyddu nifer y cleifion sy'n cael mynediad at wasanaethau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod ac sy'n cael eu rhyddhau i'w cartref yr un diwrnod,** gan leihau nifer y derbyniadau i'r ysbyty – i gynnwys cynnydd tuag at ddarparu gwasanaethau SDEC meddygol 12 awr y dydd yn gyson.
- 5. Lleihau nifer y cleifion sy'n profi arhosiad dros 7 diwrnod a thros 21 diwrnod yn yr ysbyty,** drwy ymwreiddio llwybrau i gefnogi llif a datblygu gwell dealltwriaeth o oedi ar lwybrau.

Yn ogystal â'r uchod, bydd meysydd allweddol eraill yn cael eu hadolygu a'u hadnewyddu gan y rhaglen drwy gydol 2023/24, gan gynnwys aliniad â gwaith cenedlaethol a lleol ar gynlluniau gofal i breswylwyr cartrefi gofal a phrosiectau gwella Adrannau Achosion Brys.

Yn ei gyfanrwydd, bydd cynllun y rhaglen yn sicrhau bod y rhaglen Chwe Nod yn ymdrechu i alluogi Byrddau Iechyd a phartneriaid i ddarparu'n gyson y gofal iawn, yn y lle iawn, y tro cyntaf i bobl sydd ag anghenion gofal brys neu ofal mewn argyfwng.